COFNODION CYFARFOD BWRDD TYFU CANOLBARTH CYMRU A GYNHALIWYD DROS ZOOM AR DDYDD IAU, 11 MAWRTH 2021

YN BRESENNOL

Aelodau Cabinet Cyngor Sir Powys:
Y Cynghorydd Rosemarie Harris Arweinydd Cyngor Sir Powys **(RH) (Cadeirydd)**
Y Cynghorydd Aled Davies, Deiliad y Portffolio Cyllid, Cefn Gwlad a Thrafnidiaeth **(AD)**
Y Cynghorydd Phyl Davies, Deiliad y Portffolio Addysg ac Eiddo **(PD)**
Y Cynghorydd Heulwen Hulme, Deiliad Portffolio yr Amgylchedd **(HH)**
Y Cynghorydd Iain McIntosh, Deiliad Portffolio Datblygiad Economaidd, Cynllunio a Thai **(IM)**

Aelodau Cabinet Cyngor Sir Ceredigion:
Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, Arweinydd Sir Ceredigion ac Aelod Cabinet dros Berfformiad Polisi, Partneriaethau a Gwasanaethau Democrataidd **(EAG)**
Y Cynghorydd Dafydd Edwards: Aelod Cabinet dros Briffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol, ynghyd â Thai **(DE)**
Y Cynghorydd Catrin Miles: Aelod Cabinet dros Wasanaethau Dysgu a Dysgu Gydol Oes **(CM)**
Y Cynghorydd Rhodri Evans: Aelod Cabinet dros yr Economi ac Adfywio **(RE)**
Y Cynghorydd Gareth Lloyd, Aelod Cabinet dros Gyllid a Gwasanaethau Caffael a Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd **(GL)**

Fiona Stewart, Cadeirydd Grŵp y Strategaeth Economaidd **(FS)**

Swyddogion:
Eifion Evans, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Ceredigion **(EE)**
Dr. Caroline Turner, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Powys **(CT)**
Carwyn Jones-Evans, Rheolwr Strategaeth Bargen Twf Canolbarth Cymru **(CJE)**
Clive Pinney, Cyfreithiwr y Cyngor, Cyngor Sir Powys **(CP)**
Lowri Edwards, Swyddog Corfforaethol Arweiniol: Gwasanaethau Democrataidd **(LE)**
Nigel Brinn, Cyfarwyddwr Corfforaethol dros yr Economi a'r Amgylchedd, Cyngor Sir Powys **(NB)**
Paul Griffiths, Cynghorydd **(PG)**
Russell Hughes-Pickering, Swyddog Corfforaethol Arweiniol: Yr Economi ac Adfywio, Cyngor Sir Ceredigion **(RHP)**
Stephen Johnson, Swyddog Corfforaethol Arweiniol: Cyllid a Chaffael, Cyngor Sir Ceredigion **(SJ)**

Yn bresennol hefyd: Elgan Hearn, Adroddwr Democratiaeth Lleol Powys

1.	**CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb i'r cyfarfod.

Ymddiheuriadau a gafwyd: Steve Hughson, Prif Weithredwr Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru.

DRAFT

2.	**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni adroddwyd am unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

3.	**COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF 03/02/2021**

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 3 Chwefror 2021 yn gofnod cywir.

4.	**BARGEN TWF CANOLBARTH CYMRU: DATBLYGU PORTFFOLIO** • **Adroddiad: Diweddariad am y cynnydd a'r cyd-destun ar gyfer trafodaeth** • **Llafar: Adborth gan y Grŵp Strategaeth Economaidd**

Adroddodd CJE am y cyhoeddiad cadarnhaol a wnaethpwyd yn ystod Cyllideb y Gwanwyn Llywodraeth y DU yr wythnos diwethaf. Yn hytrach na'r £15mil dros 15 mlynedd ar gyfer cyllid Bargeinion Twf, dywedodd CJE bod Trysorlys y DU wedi penderfynu y caiff y cyllid ei gyflymu er mwyn ei ddosbarthu dros 10 mlynedd, sy'n cyfateb â £5.5mil y flwyddyn. Nid yw Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi pryd y bydd y cyllid yn cychwyn ac nid yw LlC wedi nodi a fyddant yn cyfateb y proffil cyllido eto. Dywedodd CJE nad yw'r diwygiad hwn yn arwain at unrhyw newid i brosesau a chynhelir cyfarfodydd gyda Gweision Sifil y DU bob pythefnos er mwyn cynnal cyfathrebu rheolaidd.

Rhoddodd CJE ddiweddariad am y cynnydd o adroddiad a ddosbarthwyd i'r Aelodau ymlaen llaw ynghylch datblygiad ffurfiol Bargen Twf Canolbarth Cymru, a oedd yn cynnwys yr Achos Busnes Portffolio Strategol drafft a'r rhestr hir gychwynnol o brosiectau.

Dywedodd CJE y cynhelir cyfarfodydd wythnosol rhwng swyddogion er mwyn rheoli'r gweithgarwch.

Dywedodd CJE bod Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wedi cymeradwyo cyllid ar ffurf refeniw, sef ychydig dros £1mil dros 3 blynedd, y mae'r ddau Awdurdod Lleol wedi neilltuo cyllid cyfatebol ar ei gyfer, a fydd yn helpu i sefydlu'r Swyddfa Rheoli Portffolio (PMO). Trafodir y strwythur gyda'r ddau Brif Weithredwr a chaiff y gwaith hwn ei gwblhau dros y misoedd nesaf.

Adroddodd CJE bod gwefan TCC bellach yn fyw ac yn cael ei diweddaru trwy ychwanegu gwybodaeth iddi am y Fargen Twf a'r ffordd y gall busnesau ymgysylltu. Esboniodd CJE y gofynnir i fusnesau droi at dimau'r economi yn y ddau Awdurdod Lleol yn y lle cyntaf er mwyn cael trafodaeth bellach, tra bod y PMO yn cael ei sefydlu.

Dywedodd CJE y trafodwyd yr Achos Busnes Portffolio Strategol yn ystod gweithdy Cabinet anffurfiol ar y cyd rhwng Ceredigion a Phowys, ac y trafodwyd hyn gyda'r ESG. Dywedodd CJE mai'r Achos Busnes Portffolio Strategol yw'r ddogfen ffurfiol gyntaf i gael ei chynhyrchu ar gyfer y ddwy Lywodraeth er mwyn dangos y capasiti a'r gallu i gyflawni'r Fargen Twf.

Rhoddodd CJE ddiweddariad am yr astudiaethau dichonolrwydd i bawb, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad cysylltiedig. Dywedodd CJE bod y set gyfredol o brosiectau yn cael eu cwmpasu o hyd ac y byddant yn cael eu cyfleu yn fuan ar ôl datblygu'r rhestr hir ac ar ôl gwneud gwaith pellach i'w mireinio'n rhestr fer gychwynnol.

Cyflwynodd CJE y camau nesaf i'r Aelodau, fel yr amlinellir yn Adran 5 yr adroddiad cysylltiedig, a fydd yn cynnwys rhannu a chyhoeddi'r astudiaethau dichonolrwydd er mwyn caniatáu sgyrsiau mwy agored, strwythuredig a manwl. Ceir trafodaethau pellach gyda'r ddau Arweinydd ynghylch cryfhau'r cyfathrebu a'r negeseuon ynghylch sut y gall busnesau gymryd rhan yn y broses o ddatblygu'r Fargen.

Dywedodd PG bod y tîm yn cydweithio'n agos iawn gyda Llywodraeth y DU a LlC, sy'n cynnig hyder i'r ddwy Lywodraeth y dilynir prosesau yn y ffordd gywir ac ar y cyflymder cywir. Dywedodd PG bod yn rhaid i'r capasiti gynyddu wrth i'r llwyth gwaith gynyddu, a'i bod yn bwysig cadw at y cyflymder hwn wrth i brosiectau gael eu datblygu.

Rhoddodd PG ddiweddariad byr am yr RLSP a nododd bod y gwaith yn mynd rhagddo yn dda, ac y bydd yn caniatáu cyfleoedd ar gyfer buddsoddiad cyfalaf.

Dywedodd PG bod astudiaethau dichonolrwydd yn rhan bwysig o'r gwaith a gyflawnir ac y bydd y Bwrdd ac ESG yn eu gweld fel arwydd o'r ffaith bod prosiectau yn dechrau cael eu datblygu a'r newid y byddant yn ei ddwyn i gymunedau.

Dywedodd PG y bydd angen sicrhau bod y llywodraethu a'r sicrwydd yn cyd-fynd gyda disgwyliadau'r ddwy Lywodraeth, y Bwrdd ac ESG.

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd yr Aelodau ar y ddau argymhelliad yn yr Adroddiad, fel a ganlyn:-

- Nodi'r cynnydd a sicrhawyd hyd yn hyn wrth ddatblygu'r Fargen, a'r camau nesaf a amlinellwyd.
- Mandadu datblygiad pellach yr Achos Busnes Portffolio fel yr amlinellwyd, yn unol â safbwyntiau ychwanegol y Bwrdd/ESG – fel y gellir dwyn ymlaen cynigion cychwynnol am y rhaglen a phrosiectau i'w hystyried yn gyflym.

- **Llafar: Adborth gan y Grŵp Strategaeth Economaidd**

Rhoddodd FS adborth yn dilyn cyfarfod ESG a gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2021 a'r drafodaeth a gafwyd am y rhestr hir gychwynnol. Dywedodd FS nad oedd ESG wedi gwneud unrhyw benderfyniad am y rhestr hir, a bod Aelodau ESG yn edrych ymlaen at drafod yr astudiaethau dichonolrwydd a'r penderfyniadau i'w gwneud. Roedd Aelodau ESG yn teimlo bod yr holl brosiectau yn cyd-fynd ag ysbryd Bargen Twf Canolbarth Cymru. Dywedodd FS bod Aelodau ESG yn darparu gwybodaeth i'r ddau Gyngor am y wybodaeth y maent yn chwilio amdani er mwyn cydweithio.

Awgrymodd FS y dylid rhoi cwestiynau i Aelodau ESG y bydd gofyn ymateb iddynt cyn cyfarfodydd ESG er mwyn caniatáu i drafodaethau ddigwydd rhwng Aelodau ESG ymlaen llaw.

O hyn ymlaen, dywedodd FS y gallai'r ESG gael ei rannu'n grwpiau llai o faint er mwyn trafod materion.

Dywedodd PG y bydd trafodaeth bellach yn digwydd gydag FS a CJE i drafod y pwyntiau hyn ymhellach.

Gofynnodd FS a oedd Datganiad o Weledigaeth yn ei le ar gyfer rhestr hir y prosiectau? Dywedodd FS ein bod mewn sefyllfa ariannol ac economaidd sy'n newid ar draws y byd o ganlyniad i bandemig Covid-19 ac y gallai meysydd targed yr astudiaethau dichonolrwydd newid. Cadarnhaodd CJE bod Datganiad o Weledigaeth mewn grym, a drafodwyd gydag Aelodau ESG ym mis Mawrth 2019, a gaiff ei gynnwys yn y ddogfen Achos Busnes Portffolio Strategol drafft.

Dywedodd NB bod trafodaethau'n parhau ynghylch darparu cymorth er mwyn dwyn prosiectau yn eu blaen.

Dywedodd CJE y cyhoeddir datganiad i'r wasg heddiw yn gofyn am syniadau ar gyfer y Fargen Twf ac y caiff gwybodaeth ei chynnwys ar wefan TCC. Gwneir gwaith cyfathrebu pellach yn dilyn yr Etholiad ym mis Mai 2021.

Awgrymodd PG y dylai Aelodau Bwrdd TCC ac Aelodau ESG hysbysu cysylltiadau trwy eu rhwydweithiau o gyfleoedd y Fargen Twf a'u cyfeirio at PMO am drafodaeth bellach.

Roedd EAG yn dymuno llongyfarch y swyddogion am yr holl waith a gyflawnwyd hyd yn hyn. Cyflawnir llawer mwy o waith er mwyn diffinio prosiectau i'w cynnwys ar y rhestr fer, ac wrth i wahanol ffrydiau cyllid ddatblygu wrth symud ymlaen, efallai y bydd mwy o ffrydiau cyllid ar gael i brosiectau na fyddant yn dod dan y Fargen Twf.

Gofynnodd EAG a oes angen sefydlu Pwyllgor Archwilio ar y cyd er mwyn goruchwylio'r gwaith, yn ychwanegol i Bwyllgor Craffu ar y cyd?

Dywedodd CJE a CP bod y pwyllgor Craffu ar y cyd yn cael ei ddatblygu a bod Cylch Gorchwyl wedi cael ei ddrafftio, a gyflwynir i Aelodau yn ystod cyfarfod nesaf Bwrdd TCC (Pwyllgor ar y Cyd). Trafodir trefniadau ar gyfer Pwyllgor Archwilio ar y cyd yn fanylach.

Gofynnodd EAG am wybodaeth bellach am ddau syniad a drafodwyd yn ystod Pwyllgor Craffu y Senedd gan Gyngor Dinas Caerdydd, sef Cronfa Her i'w gweithredu er mwyn dwyn syniadau newydd ymlaen i fynd i'r afael â phroblemau a defnyddio rhywfaint o gyllid i'w ail-fuddsoddi mewn rhoi benthyciadau yn hytrach na buddsoddiad llawn.

DRAFT

Dywedodd CJE nad yw'r pwynt olaf yn bosibl ar gyfer Bargen Twf Canolbarth Cymru gan ei fod yn wahanol fodel i Fargeinion eraill yng Nghymru, fodd bynnag, efallai y bydd cyfleoedd i ofyn am rai o'r elfennau hyn os bydd hynny'n briodol. O ran y Gronfa Her, dywedodd CJE y gallai fod cyfleoedd i beilota rhywbeth tebyg yng Nghanolbarth Cymru.

- **Cytundeb Rhyng-Awdurdod Diwygiedig**

Er bod y Cytundeb Rhyng-Awdurdod (IIA) diwygiedig wedi cael ei dynnu oddi ar Agenda y cyfarfod hwn heno yn ffurfiol, rhoddodd CP ddiweddariad byr. Dywedodd CP bod gwaith wedi cael ei wneud i ddiwygio'r IIA a bod rhywfaint o waith pellach i'w wneud o hyd, a chaiff y drafodaeth gyda'r Bwrdd ei hoedi tan y cyfarfod nesaf ar 11 Mehefin 2021. Fodd bynnag, dywedodd CP bod awgrym y dylai'r Bwrdd gytuno ymestyn yr IAA er mwyn caniatáu ar gyfer datblygiad yr achos busnes datblygu portffolio cyn y gwneir diwygiad ffurfiol yn ystod cyfarfod nesaf y Bwrdd ar 11 Mehefin 2021.

Cytunodd pob Aelod ar ffurf y geiriad (a rannwyd ar sgrin gan CP) er mwyn ymestyn yr IAA i gynnwys y datblygiad yn y dyfodol, cyn y gwneir diwygiad ffurfiol i'r IAA yn ystod y cyfarfod nesaf ar 11 Mehefin 2021.

5.	**PARTNERIAETH DYSGU A SGILIAU RHANBARTHOL (RLSP): BRIFFIO AM Y CYNNYDD A'R CAMAU NESAF**

Rhoddodd NB ddiweddariad am y cynnydd a sicrhawyd wrth sefydlu'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol (RLSP). Dywedodd NB bod rhestr fer wedi cael ei llunio o blith y ceisiadau ar gyfer rôl Rheolwr RLSP yr wythnos ddiwethaf, ac y cynhelir cyfweliadau ddydd Llun yma, 15 Mawrth 2021.

Dywedodd NB y gwahoddir pobl i Fynegi Diddordeb yn rôl Cadeirydd RLSP ac y dosbarthir ffurflenni Mynegi Diddordeb i Aelodau ar ôl y cyfarfod, y gall Aelodau eu dosbarthu mewn ffordd briodol.

Dywedodd NB bod cyfarfodydd yn parhau gyda LlC er mwyn sicrhau y caiff RLSP Canolbarth Cymru ei thrin mewn ffordd gyfartal ag eraill yng Nghymru.

6.	**UNRHYW FATER ARALL**

Dim.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am fynychu ac am yr holl waith a gyflawnir.

7.	**DYDDIADAU CYFARFODYDD NESAF**

11 Mehefin 2021 – Rhith
29 Medi 2021 – Rhith
10 Rhagfyr 2021 – Rhith

Y Cynghorydd Sir Rosemarie Harris
Cadeirydd

DRAFT

DRAFT